

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION
NOTICE**

Dyddiad/Date 20140401

PWNC / SUBJECT

**Eitem 6 Targedau Arbedion Effeithlonrwydd
*Item 6 Efficiency Savings Targets***

PENDERFYNIAD / DECISION

1. Cymeradwyo targedau arbedion effeithlonrwydd a rheoli'r galw fesul gwasanaeth.
2. Cymeradwyo'r drefn arfaethedig.
3. Rhoi'r hawl i'r Aelod Cabinet Adnoddau wneud mân ddiwygiadau lle bo angen gwneud hynny i adlewyrchu unrhyw wybodaeth bellach a ddaw i law am y cyfleoedd posibl.

*1. To approve the efficiency and demand management savings targets per department.
2. To approve the proposed process.
3. To give the Cabinet Member for Resources the right to make minor amendments where necessary to reflect any further information that comes to hand regarding the possible opportunities.*

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor rhagwelwyd bwlch ariannol tybiedig o tua £50m dros y pedair blynedd 2014/15 - 2017/18. Gyda chynnydd tybiedig o 3.5% yn y Dreth Gyngor ac arbedion sydd eisoes ar y gweill, byddai hyn yn gadael bron i £34m o fwllch i'w ddarganfod.

Mae'r gyfundrefn hon yn anelu i uchafu'r arbedion effeithlonrwydd a rheoli'r galw er mwyn osgoi toriadau cymaint â phosib ac yn hynny o beth yn lleihau'r effaith ar ein trigolion.

Fe gytunwyd yn y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn ei gyfarfod ar 24ain o Ionawr i sefydlu gweithgor o'u plith i gyfarfod yn ôl yr angen.

Bydd cyfle i holl aelodau'r Cyngor gyflwyno sylwadau a / neu bryderon am y cynigion i'r cadeirydd perthnasol yn ôl y gofyn fel y gellid eu cyflwyno i'r gweithgor. Mae hyn yn caniatáu i'r gweithgor fod yn gynhwysol yn eu rôl gyda'u cyd-aelodau i graffu effaith y cynigion.

Gan gofio mai arbedion effeithlonrwydd / rheoli'r galw y sonir amdanynt yma fe ddylai'r effaith ar ganlyniadau i drigolion fod yn llai na'r hyn a welir mewn unrhyw gyfundrefn toriadau.

Bydd y gweithgor yn gyfrifol am sicrhau bod goblygiadau gweithredu'r cynigion yn

glir ac amlygu unrhyw ystyriaethau sydd angen eu dwyn i sylw'r Cabinet o ran effaith ar bobl Gwynedd cyn eu cyflwyno am benderfyniad y Cabinet.

Bydd y gweithgor yn cyfarfod yn ôl y gofyn rhwng Gorffennaf a Hydref 2014.

Nodwyd fod yna ddau neu dri o gyfleoedd lle nad oedd y gwaith eto wedi ei gwblhau a byddai'n fuddiol medru cynnwys y materion hynny er mwyn adlewyrchu'r holl gyfleoedd am arbedion effeithlonrwydd / rheoli galw. Byddai hynny yn newid ychydig ar dargedau rhai gwasanaethau ond ddim yn golygu newid sylweddol yn y cyfanswm.

Nodwyd hefyd gan yr Aelod Cabinet fod y Prif Bwyllgor Craffu wedi ystyried y mater yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth a thra cafwyd nifer o sylwadau am gynigion mewn meysydd penodol. 'roeddent ar y cyfan yn gefnogol i'r hyn a gynigir.

As part of the Council's Financial Strategy a funding gap of around £50m had been projected over the four year period 2014/15 – 2017/18. With an assumed council tax increase of 3.5% and savings already being found, this would leave around £34m to be found.

This regime aims to maximise efficiency and demand management savings to avoid cuts as much as possible that will reduce the effect on our residents.

The Scrutiny Chairs and Vice-chairs Forum agreed at its meeting on 24th January to establish a working group from their midst to meet as required.

There will be an opportunity for all Council members to present their comments and / or concerns to the relevant Chair as required for them to be presented to the working group. This enables the working group members to be inclusive in their role with their fellow members to scrutinise the effect of the proposals.

While remembering that we are looking at efficiency / demand management proposals at this point the effect on results to citizens should be less than that we would see in any cuts regime.

The working group will be responsible for ensuring that the implications of the proposals are clear and highlight any considerations that should be brought to the Cabinet's attention in relation to the effect on the people of Gwynedd before presenting them for decision by the Cabinet.

The Working Group will meet as required between July and October 2014.

It was noted that there were two or three opportunities where the work had not yet been completed and that it would be beneficial to include these issues in order to fully reflect the opportunities for efficiency/demand management savings. This would lead to minor changes to some services' targets but no substantial change in the total.

The Cabinet Member also noted that the Principal Scrutiny Committee had considered the matter at its meeting on 27 March, and although a number of

comments were made on proposals in specific fields, they were mostly supportive of the proposals.

Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Adnoddau, cadarnhawyd y ffaith mai gwasanaethau trigolion Gwynedd sy'n bwysig a'i bod yn bwysig rhoi gwybodaeth yn rheolaidd ac yn glir i aelodau'r cyhoedd ynghylch yr her anferthol sy'n wynebu'r Cyngor. Pwysleisiwyd yn ogystal nad dewisol ydy gwneud yr arbedion hyn ond yn hytrach bod gorfodaeth i'w gwneud a bod angen i Aelodau Cabinet wneud pob ymdrech i sicrhau fod y gwasanaethau sydd yn eu gofal yn gwireddu'r arbedion.

Following the presentation of the report by the Cabinet Member for Resources, the importance of the services to Gwynedd's residents was confirmed, as well as the importance of providing the public with regular and clear information on the huge challenge facing the Council. It was also emphasised that making these savings is not optional, that they are mandatory and that Cabinet Members need to make every effort to ensure that the services under their care realise those savings.

Barn y swyddogion statudol / The views of the Statutory Officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Nid oes angen i mi ddweud mwy am ddifrifoldeb yr her sydd yn ein hwynebu fel Cyngor. Yr hyn sydd ei angen yn awr yw eglurder am y ffordd y mae'r Cyngor am gyfarfod â'r her. Mae pennu'r targedau pendant ar gyfer yr adrannau a bod yn eglur ac agored am y drefn yn allweddol i hynny. Mae'r drefn a'r targedau wedi bod yn destun dadansoddi a thrafod manwl ac rwy'n eu cymeradwyo.

I don't need to say more about the severity of the challenge facing us as an authority. What is required now is clarity on the way the Council will meet that challenge. Setting clear targets for departments and being clear and open about the process is key to that. The process and targets have been subject to detailed analysis and discussions and I approve them.

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Mae'r drefn a gynigir yn ymddangos yn gynhwysol ac rwy'n fodlon o safbwynt priodoldeb.

The proposed procedure seems inclusive and I am satisfied as to propriety.

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Cadarnhaf fod sail ddarvoudus i'r amcangyfrif o'r cyfanswm arbedion fydd raid i'r Cyngor wireddu dros y 4 blynedd nesaf. Mae'r targedau arbedion effeithlonrwydd gerbron yn hynod heriol, ac ar lefel adrannol mae'n fwy eglur fod maint y dasg yn enfawr ac anodd. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn anelu i uchafu'r gyfran o arbedion effeithlonrwydd o'r holl adrannau, cyn i'r Cyngor dorri gwasanaethau. Bydd

cyfrifwyr yr Adran Gyllid yn cefnogi'r adrannau a'r Aelodau Cabinet wrth iddynt adnabod a datblygu syniadau i arbed dros y misoedd nesaf.

I confirm there is a prudent basis for the total savings estimate the Council will need to realise over the next four years. The efficiency targets before you are extremely challenging, and on a departmental level it is clearly a huge and hard task. However, the strategy aims to maximise efficiency savings from all departments before the Council cuts services. The Finance Department accountants will support the departments and the Cabinet Members when they identify and develop their ideas over the coming months.

Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member

Dim yn berthnasol
Not relevant.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION
NOTICE**

Dyddiad/Date 20140401

PWNC / SUBJECT

**Eitem 7 Cynllun Strategol 2013/17: Cynnwys BI 2
Item 7 2013/17 Strategic Plan: Year 2 Content**

PENDERFYNIAD / DECISION

Cymeradwyo'r Cynllun Strategol drafft i'w gyflwyno ar gyfer ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 1 Mai, 2014

To approve the draft Strategic Plan for presentation and adoption by the full Council at its meeting on 1st May, 2014

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Ym mis Mai 2013, mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Strategol ar gyfer 2013 – 17. Prif bwrpas y Cynllun Strategol yw gosod gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2013 – 17, sef "Cefnogi Pobl Gwynedd i Ffynnu Mewn Cyfnod Anodd." Mae'r Cynllun Strategol yn gosod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod ac yn disgrifio'r hyn bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn eu cyflawni.

Roedd yr hyn a gyflwynwyd gerbron fel cynllun drafft er sylw'r Cabinet yn gynnwys misoedd o waith a thrafod mewnol. Yn ogystal, gwahoddwyd sylwadau ar y ddogfen ac, o ran cynghorwyr Gwynedd, cafwyd sesiynau penodol gyda'r bedair Fforwm Ardal yn gwahodd sylwadau aelodau ar y blaenoriaethau tebygol.

Mae'r cynllun yn cynnwys gwahanol fathau o brosiectau, rhai sydd yn trawsffurfio gwasanaethau ac yn arbed arian, rhai lle mae rheidwydd i ymateb i ofynion statudol neu ofynion rheoleiddwyr ac eraill, er eu bod yn ddewisol, lle mae blaenoriaeth clir ar gyfer gwireddu. Yn ogystal, mae rhai o'r prosiectau sydd yn gwireddu canlyniadau pendant yn ystod 2014/15 a chynlluniau datblygol sydd yn waith paratoi pwysig ond lle y bydd unrhyw ganlyniadau yn debyg o gael ei wireddu ar ôl 2014/15.

Un o'r pethau anoddaf ar yr adeg hon o wynebu her y Rhaglen Arbedion yw sicrhau'r capasiti digonol ar gyfer gweithredu ar yr addewidion hyn yn ariannol ac, yn fwy allweddol yn amser aelodau a swyddogion. Mae goblygiadau ariannol posib ynghlwm â rhai o'r ymrwymadau yn y cynllun a bydd rheini yn cael eu hystyried fesul achos wrth bwysa a mesur yr achosion busnes unigol.

In May 2013, the Council adopted its Strategic Plan for 2013 – 17. The main purpose of the Strategic Plan is to set the Council's vision for 2013 – 17, which is "Supporting the People of Gwynedd to Thrive in Difficult Times." The Strategic Plan sets the Council's priorities for the period and describes what the Council will do to achieve them.

The draft plan submitted for the Cabinet's attention was the product of months of work and internal discussions. In addition, observations were invited on the document and, in terms of Gwynedd councillors, specific sessions were held with the four Area Forums inviting members' observations on the proposed priorities.

The plan includes different types of projects, some that transform services and save money, some where we must respond to the requirements of statute or regulators and others, although discretionary, where there is a clear priority for their implementation. In addition, some projects will deliver definite results during 2014/15 and developmental schemes where preparatory work is being undertaken but where any results are likely to be delivered after 2014/15.

One of the hardest things at this time when we are facing the challenge of the Savings Programme, is ensuring enough capacity to deliver those pledges and, more crucially, in terms of the time of members and officers. There are possible financial implications with some of the commitments in the plan and they will be considered case by case in considering the individual business cases.

Sylwadau neu bwyntiau croes / *Observations or opposing views:-*

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Arweinydd, eglurwyd bod angen i'r Cabinet fod yn uchelgeisiol ar ran y Sir a bod yma addewid cyhoeddus i wneud gwahaniaeth ym maes Addysg, Gofal, Datblygiad Economaidd, Hamdden ac ati er mwyn datblygu'r Sir. Pwysleisiwyd y ffaith ei bod yn bwysig i'r Aelodau Cabinet gofio bod yna uchelgais i ddarparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i drigolion Gwynedd a bod y datblygiadau o fewn y Cynllun Strategol yn syrthio i themâu – codi safonau addysg, hyrwyddo'r Gymraeg a hybu'r economi yng Ngwynedd. Mynegwyd y ffaith fod y Cynllun hwn yn ffrwyth misoedd o drafod a'i bod wedi bod yn daith cymharol anodd o ystyried yr hinsawdd ariannol ond bod yna edrych ymlaen yn awr at wireddu'r cynlluniau.

Following the Leader's presentation on the report, it was explained that the Cabinet needed to be ambitious on behalf of the County, and that there was a public pledge to make a difference in the fields of Education, Care, Economic Development, Leisure etc, in order to develop the County. It was emphasised that the Cabinet Members needed to remember that there was an ambition to provide first class services to the residents of Gwynedd and that developments within the Strategic Plan fell into themes - raising education standards, promoting the Welsh Language and promoting Gwynedd's economy. It was noted that this Plan was the culmination of months of discussions and that it had been a relatively difficult journey due to the financial climate, but that there was now eager anticipation to realise the plans.

Barn y swyddogion statudol / The views of the Statutory Officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Yn gynharach yn y rhaglen hon, bydd y Cabinet wedi ystyried y targedau arbed ar gyfer yr adrannau i gyd ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae'r her o wireddu'r targedau hynny yn gosod pwysau enfawr ar yr union adrannau a fydd yn gwireddu addewidion y Cynllun Strategol hwn. Mae'n bwysig cynnal uchelgais ar adeg anodd ond dylai'r Cyngor gydnabod yr elfen uwch o risg nag arfer o ran capasiti'r Cyngor i wireddu'r addewidion yn y Cynllun.

Earlier in this agenda, the Cabinet will have considered the savings targets for the departments for the next four years. The challenge of delivering those targets places enormous pressure on the departments who will be implementing the promises in this Strategic Plan. It is important to have ambition at difficult times but the Council must recognise the greater risk than usual in terms of the Council's capacity to deliver the Plan's promises.

2. Swyddog Monitro/Monitoring Officer:-

Mae'n ofyn statudol bod y Cyngor yn cyhoeddi amcanion gwella blynyddol ac mae'r Cynllun Strategol yn cyflawni hynny. Mater i'r Cyngor Llawn ydi mabwysiadu'r Cynllun Strategol ond mae'n rhaid i'r Cabinet gyflwyno ei gynigion a blaenoriaethau er ystyriaeth y Cyngor. 'Rwy'n falch o weld y bu ymgynghori gyda gweddill yr aelodau trwy'r Fforymau Ardal a bod yr her sylweddol o wireddu'r cynigion ar adeg o gyni yn cael ei gydnabod.

It is a statutory requirement that the Council publishes annual improvement objectives and the Strategic Plan achieves this. It is for the Full Council to adopt the Strategic Plan but the Cabinet is required to present its proposals and priorities for the Council's consideration. I am glad to see that there has been consultation with the rest of the members through the Area Forums and that the considerable challenge of realising the proposals at a time of austerity is recognised.

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

Mae awdurdodau lleol yn wynebu cyfnod o gynilo digynsail, a bydd yr adroddiad ar dargedau arbedion yn dangos maint yr her i'r holl adrannau. Bydd rhai o'r prosiectau sy'n y cynllun strategol yn cyfrannu tuag at gyflawni arbedion ariannol

hir-dymor. Fodd bynnag, bydd cryn straen ar gapasiti'r adrannau i gyflawni'r holl ystod o brosiectau sy'n y cynllun strategol arfaethedig, tra hefyd yn adnabod, datblygu a gwireddu cynlluniau arbedion yn 2014/15.

Local authorities are facing a period of unprecedented cutbacks and the report on the savings shows the scale of the challenge for all the departments. Some of the projects in the strategic plan contribute towards achieving long term savings. However, there will be considerable strain on departments' capacity to undertake the full range of projects in the strategic plan, whilst also identifying, developing and implementing savings schemes in 2014/15.

Barn yr aelod lleol / *Views of the Local Member*

Dim yn berthnasol
Not relevant.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION
NOTICE**

Dyddiad/Date 20140401

PWNC / SUBJECT

**Eitem 8 Trefniadaeth Ysgolion yn Nalgylch y Berwyn
Item 8 Schools Organisation – Y Berwyn Catchment Area**

PENDERFYNIAD / DECISION

- Rhoi caniatâd i ehangu'r gwaith i alluogi llunio ystod o fodelau fyddai'n cyfarch agweddau strategol, rheolaethol, a/neu lywodraethol ar gyfer y dalgylch yn ei gyfanrwydd, gyda'r bwriad o gyflwyno argymhellion penodol ar gyfer ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i'r Cabinet.
- Rhoi awdurdod i gynnal asesiad er adnabod a mesur yr angen yn y dalgylch ar gyfer darpariaeth addysg o gategori a dynodiad penodol ac i gyfarch anghenion y broses o adnabod argymhellion fel y nodir uchod.
- Gan fod un o ysgolion y dalgylch yn Ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru dan gymorth, dirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet Addysg, Plant a Phobl Ifanc gynnal rhag-ymgynghoriad gyda'r Eglwys yng Nghymru yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Yna, gellir cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet gyda'r opsiwn a ffefrir i ofyn caniatâd i gynnal cyfnod o ymgynghoriad statudol arno.
- *To give permission to extend the work to develop a range of models which will address strategic, managerial, and/or governance arrangements for the entire catchment area, with the aim of presenting to the Cabinet specific recommendations for statutory consultation in accordance with Section 48 of the Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013.*
- *To authorise the undertaking of an assessment to identify and measure the need within the catchment area for education provision of a specific category and designation, and to meet the requirements of the process of identifying the recommendations as noted above.*
- *As one of the schools in the catchment area is a Church in Wales Voluntary Aided School, to delegate to the Education, Children and Young People Cabinet Member the authority to hold a pre-consultation with the Church in Wales in accordance with the Schools Organisation Code 2013. Then to submit a further report to the Cabinet with the favoured option and seek permission to hold a period of statutory consultation on this option.*

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Cafodd Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd ei sefydlu ym Mehefin 2008. Yn ystod Gwanwyn 2009, fe gyhoeddodd ac fe gymeradwyodd y Cyngor ei strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*. Cytunwyd bod angen adolygu addysg ym mhob rhan o'r sir, fesul dalgylch.

Defnyddiwyd nifer o feini prawf wrth flaenoriaethu dalgylchoedd i'w hadolygu. Penderfynwyd mai dalgylch Y Berwyn fyddai'r ail ddalgylch i'w adolygu.

Aethpwyd ati rhwng Tachwedd 2009 a Mai 2010 i gynnal trafodaeth yn y dalgylch. Ar gais y Panel Adolygu Dalgylch, paratowyd rhestr hir o fodelau posibl yn y dalgylch. Cafodd 7 model eu trafod gan y Panel Ymgynghorol Sirol. Yn ogystal, ystyriwyd oblygiadau'r gwahanol fodelau drwy gynnal Asesiad Cymuned, laith a Chydraddoldeb arnynt cyn dechrau ymgynghori'n statudol.

Ar 12 Mai 2010, cyflwynodd yr Arweinydd Portffolio Addysg ei chynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion dalgylch Y Berwyn i'r Panel Adolygu Dalgylch, sef:

- Campws Gydol Oes ar gyfer Y Bala, i agor yn ystod blwyddyn ysgol 2014-15 yn cynnwys ysgolion Beuno Sant, Bro Tegid ac Ysgol Y Berwyn.
- Cau Ysgol Y Parc erbyn Medi 2012, gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn
- Hyrwyddo cydweithio rhwng ysgolion Ffridd y Llyn, Bro Tryweryn ac OM Edwards a'r Campws Gydol Oes newydd.

Cafodd y cynigion eu derbyn gan Gyngor Gwynedd ar 15 Gorffennaf 2010 fel sail ar gyfer ymgynghori statudol ffurfiol. Yn unol â'r gofynion statudol a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2009, ymgynghorodd Cyngor Gwynedd yn statudol ar y cynigion, rhwng 13 Rhagfyr 2010 a 4 Chwefror 2011.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori statudol gyda staff, llywodraethwyr a rhieni ym mhob un o'r ysgolion, rhwng 10 ac 19 Ionawr 2011. Aeth y mater gerbron y Cyngor Llawn ar 12 Mai 2011, ac argymhellwyd

- cymeradwyo'r bwriad i gau Ysgol Y Berwyn, Ysgol Beuno Sant ac Ysgol Bro Tegid ar 31 Awst 2015 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, er mwyn medru sefydlu'r Campws Gydol Oes
- cymeradwyo'r cynnig i sefydlu Ysgol Gymunedol ar safleoedd Ysgol Y Berwyn ac Ysgol Beuno Sant i dderbyn disgyblion o'r amrediad oed 3-19 fel rhan o sefydlu Campws Dysgu Gydol Oes newydd yn Y Bala i agor ar 1 Medi 2015 a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i'r perwyl hwnnw
- cymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol y Parc erbyn 31 Awst 2012, gan ddarparu lleoedd i blant yn y dalgylch yn ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn, ar ôl cwblhau gwaith uwchraddio ar Ysgol OM Edwards a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 28 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998

Cymeradwyodd y Cyngor Llawn ar 12 Mai 2011 yr argymhellion uchod gyda'r amod fod adnoddau cyfalaf priodol wedi eu cadarnhau.

Caeodd Ysgol Y Parc ar Awst 31 2013 ac fe gyflawnwyd gwelliannau yn Ysgol OM Edwards erbyn Medi 2013. Yn ystod y cyfnod hwn bu newid yn y broses o ariannu prosiectau adeiladu mawr gan Lywodraeth Cymru, a bu ansicrwydd ynglŷn â ffynhonnell ariannu'r Campws Gydol Oes yn nhref Y Bala. Penderfynodd y Cyngor warantu'r ffynhonnell ariannol ar gyfer buddsoddiad yn Ysgol OM Edwards.

Er y bu i'r Cyngor gynnal adolygiad ac ymgynghoriad statudol ar gynigion, cyn

symud ymlaen i orffen adolygiad o drefniadaeth ysgolion yn y dalgylch, bydd rhaid cynnal ymgynghoriad o'r newydd.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad blaenorol dros dair blynedd yn ôl a bellach ystyrir oherwydd treigladau amser na fyddai'n briodol symud ymlaen i weithredu ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad yma. Yn ychwanegol mae'r Ddeddfwriaeth bellach wedi newid, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 wedi dod i rym, gan gyflwyno Cod Statudol newydd Llywodraeth Cymru ar drefniadaeth ysgolion, (Cod Trefniadaeth Ysgolion 006/2013), sydd â gofynion penodol ar gyfer y broses. Mae hyn yn cynnwys adnabod yr ymgynghorai sydd i'w cynnwys, cynnwys a ffurf dogfennau a'r broses ymgynghori.

Er bod ymgynghoriad statudol ar ysgolion y dref eisoes wedi ei gynnal, oherwydd y treigl amser, i sicrhau bod yr opsiwn yma'n parhau'r opsiwn gorau, gofynnwyd i'r Cabinet gymeradwyo ehangu'r sgôp i gynnwys ystod o fodelau posib a fyddai'n cyfarch agweddau strategol, rheolaethol, a/neu lywodraethol ar gyfer gofynion y dalgylch. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyfeirio'r awdurdod tuag at gytuno trefniadau ar gyfer cynnal addysg hyfyrw ôl-16 yn nalgylch y Berwyn.

Nodwyd materion penodol oedd angen i'r Cabinet eu hystyried wrth wneud y penderfyniad i ail edrych ar drefniadaeth ysgolion yn nalgylch Y Berwyn:

- Pennu categori cyfreithiol ysgolion a chymeriad crefyddol dynodedig
- Cyllid cyfalaf ac achos busnes Llywodraeth Cymru
- Y Drefn Newydd
- Strwythurau rheoli ysgolion a chyfathrebu'r broses newid
- Agweddau adeiladu
- Amserlen berthnasol

Felly, wrth ofyn i'r Cabinet gadarnhau cyfeiriad y gwaith amlygwyd y materion y dylent fod yn ymwybodol ohonynt;

- yr oblygiadau cyllidol a'r angen am achos busnes cynhwysfawr, gan gynnwys effaith tebygol chwyddiant ar y prosiect
- cyfyngiadau amser o ran ffenestr Rhaglen Ysgolion 21 ganrif ar Hugain a bod angen sicrhau fod unrhyw fuddsoddiadau cyfalaf yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y cyfnod hwnnw
- yr angen i fod yn ymwybodol o'r angen i gyfarch mater o gategori cyfreithiol ysgol a dynodiad y ddarpariaeth addysg yn yr ardal wrth ddatblygu modelau cadarn

The Gwynedd Schools Reorganisation Improvement Working Group was established in June 2008. During the spring of 2009, the Council published and recommended its Excellent Primary Education for the Children of Gwynedd strategy. It was agreed that a catchment area by catchment area review of education throughout the county was needed.

Several criteria were used to prioritise catchment areas for review. It was decided that Y Berwyn catchment area would be the second area to be reviewed.

Between November 2009 and May 2010 discussions were held within the catchment area. At the request of the Catchment Area Review Panel, a long list of possible models for the catchment area was compiled. 7 models were discussed by the County Consultation Panel. In addition, the implications of all the models were considered by Community, Language and Equality impact assessments held prior to the start of the statutory consultation.

On 12 May 2010, the Education Portfolio Leader submitted her proposals for the reorganisation of schools in Y Berwyn catchment area to the Catchment Area Review Panel, namely:

- *a Lifelong Campus for Y Bala, to open during the school year 2014-15 and to include Ysgol Beuno Sant, Ysgol Bro Tegid and Ysgol Y Berwyn.*
- *to close Ysgol Y Parc by September 2012, and accommodate pupils of the catchment area at Ysgol OM Edwards, Llanuwchllyn.*
- *to promote collaboration between Ysgol Ffridd y Llyn, Ysgol Bro Tryweryn, Ysgol OM Edwards and the new Lifelong Campus.*

The proposals were accepted by Gwynedd Council on 15 July 2010 as a basis for formal statutory consultation. In accordance with the statutory requirements and the Welsh Government Schools Organisation Code 2009, Gwynedd Council undertook a statutory consultation on the proposals between 13 December 2010 and 4 February 2011.

Statutory consultation meetings were held with staff, governors and parents at each one of the schools, between 10 January and 19 January 2011. The matter appeared before the full Council on 12 May 2011, and the following recommendations were made:

- *approval for the proposal to close Ysgol y Berwyn, Ysgol Beuno Sant and Ysgol Bro Tegid on 31 August 2015 and to issue statutory notices in accordance with Section 29 of the Schools Standards and Framework Act 1998, in order to establish the Lifelong Campus*
- *approval for the proposal to establish a Community School on the sites of Ysgol y Berwyn and Ysgol Beuno Sant to admit pupils within the 3-19 age range as part of the establishment of a new Lifelong Learning Campus in the town of Bala, to open on 1 September 2015, and to issue statutory notices to that effect in accordance with Section 28 of the Schools Standards and Framework Act 1998*
- *approve the proposal to close Ysgol y Parc by 31 August 2012, and to provide places to children in the catchment area at Ysgol O M Edwards, Llanuwchllyn, after completing upgrading works at Ysgol O M Edwards and issuing statutory notices in accordance with Section 28 of the Schools Standards and Framework Act 1998 to that end.*

On 12 May 2011, the Full Council approved the above recommendations, on

condition that the necessary capital resources were confirmed.

Ysgol y Parc was closed on August 31 2013 and improvements were completed at Ysgol OM Edwards by September 2013. During this time, there was a change in the Welsh Government method of funding large building projects, and there was uncertainty in respect of the availability of funding for the Lifelong Campus in Bala. The Council decided to guarantee the funding for the investment made in Ysgol OM Edwards.

Although the Council did hold a review and statutory consultation on the proposals, before proceeding and completing a review of schools organisation in the catchment area, a new consultation will have to be undertaken.

The previous consultation was held over three years ago and it is now considered that because of the passage of time, it would not be appropriate to proceed on the basis of the previous consultation. In addition, there have been legislative changes and the Schools Standards and Organisation (Wales) Act 2013 is now in force, as well as the Statutory Code on schools reorganisation made under it, (Schools Organisation Code 006/2013), which make specific provisions to the process concerned, including identifying consultees, the form and content of documents and the consultation process itself.

Although the town schools formed part of a statutory consultation, because of the passage of time, in order to ensure that this option continues to be the most appropriate option, the Cabinet is requested to extend the scope in order to include a variety of possible models which will address strategic, managerial and/or governance aspects appropriate to the catchment area. The Welsh Government have also informed the authority that arrangements should be in place which would ensure that post-16 education is viable in the Berwyn catchment area.

Specific matters were noted that required the Cabinet's consideration in making the decision to revisit the organisation of schools in the Berwyn catchment area.

- Establishing the legal category of schools and a designated religious character*
- Capital funding and Welsh Government business case*
- The New System*
- School management structures and communicating the process of change*
- Construction aspects*
- Relevant timetable*

Therefore, in requesting the Cabinet to confirm the direction of the work, the following matters that they should be made aware of were emphasised;

- the financial obligations and the need for a comprehensive business case*
-

-
- which is to include the likely effects of inflation on the project*
- the requirement to ensure that any capital investments are committed before the end of the spending window noted in the 21st Century Schools Programme*
 - the requirement to ensure that the question of the legal category of schools and the designation of the educational provision in the catchment area is considered as models are developed*
-

Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gan yr Aelod Cabinet Addysg, eglurwyd bod yma gyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i addysg plant 3 i 19 oed yn ardal y Berwyn ac er bod y sefyllfa wedi bod yn un gymhleth, bod angen bellach symud ymlaen gyda'r ymgynghori a'r datblygiadau er budd plant a phobl ifanc y dalgylch. Mynegwyd yr angen i gyfyngu ar nifer y modelau a chadw'r drefn mor syml â phosibl.

Cadarnhawyd yn ogystal y bydd yna ffocws ar yr hyn sy'n bosibl o ran llywodraethu ac y bydd yna ymgynghori helaeth gydag ysgolion cynradd y dalgylch. Pwysleisiwyd y ffaith y bydd buddsoddiad helaeth yn nhref y Bala ac ym Meirionnydd yn y dyfodol agos a bod angen sicrhau cadw'r budd yn lleol er gwaethaf yr amserlen dynn i gyflawni'r prosiectau. Eglurwyd bod trafodaethau helaeth wedi cael eu cynnal gyda'r 3 aelod lleol a'i fod yn allweddol fod yr aelodau lleol a thrigolion y dalgylch yn gallu perchnogi'r datblygiad.

Following the presentation of the report by the Cabinet Member for Education, it was explained that this offered an opportunity to make a real difference to the education of 3-19 year old children in the Berwyn area, and despite the complexity of the situation, that there was a need to move on with the consultation and developments for the benefit of the children and young people within the catchment area. The need to limit the number of models and to keep the arrangements as simple as possible was noted.

It was also confirmed that there would be a focus on the possibilities in terms of governance and that there would be extensive consultation with the primary schools within the catchment area. It was emphasised that there will be considerable investment in Bala town and in Meirionnydd in the near future and that there was a need to ensure that the benefit was kept locally despite the tight timescales to realise the projects. It was explained that there had been extensive discussions with the three local members and that it was crucial that the local members and residents of the area took ownership of the development.

Barn y swyddogion statudol / The views of the Statutory Officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Yn amlwg, mae'r hanes hwn yn un hir a chymhleth gydag amryw o ystyriaethau gwahanol yn dylanwadu ar y mater. Fodd bynnag, mae'n eithriadol o bwysig bod y Cyngor yn medru symud ymlaen yn hyderus ac mae'r ymgynghoriad pellach y mae'r adroddiad yn ei argymhell, a'r sgôp ehangach, yn cynnig sail gadarnach ar

gyfer gweithredu maes o law. Mae effaith yr amserlen ddiwygiedig ar y gofynion ariannol yn amlwg o bryder ac rwy'n ymwybodol bod y Bwrdd Rhaglen yn edrych ar ffyrdd o gyfarch y broblem hon. Wrth gwrs, mae'n bwysig bod y Cabinet yn glir am ei allu i ymrwymo i unrhyw ofyniad pellach allai godi

This matter has a long and complex history, with a number of different factors affecting it. However, it is extremely important that the Council is now able to proceed confidently, and the further consultation this report recommends, including extending the scope, will contribute towards providing a firm foundation for progressing the matter in due course. It is a matter of concern that the amended timetable will impact on the financial requirements, but I understand that the Programme Board is addressing this problem. It is important that the Cabinet is clear of its ability to commit to any additional financial requirements which may arise.

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

Mae newidiadau yn y gyfundrefn gyfreithiol ynglŷn â threfniadaeth ysgolion ers y penderfyniadau blaenorol yn golygu y byddai angen gweithredu'r gofynion newydd ynglŷn ag ymgynghori a phroses i barhau gydag adolygiad trefniadaeth yn nalgylch y Berwyn. Rhaid hefyd talu sylw at effaith treigladau amser ar briodoldeb dibynnu ar ganlyniadau unrhyw ymgynghoriad blaenorol ynghyd a sicrhau fod opsiynau fydd yn cael eu hystyried yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol ac yn cyfarch amgylchiadau neu ofynion sydd yn bodoli bellach. Mae'r broses amlinellir yn creu cynllun ar gyfer ymateb i'r materion yma".

There have been developments in the law regarding schools organisation since the decisions previously made which mean that new arrangements in relation to the consultation process will have to be complied with in order to continue to review schools organisation in the Berwyn catchment area. There is also the need to consider the effect of the passage of time on the validity of any previous consultation as well as having to ensure that any options which are to be considered are based on current information and address circumstances and requirements which currently exist. The process outlined creates a plan for responding to these matters.

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Mae rhan 2 o'r adroddiad yn amlygu'r rhesymau dros yr ymgynghoriad ehangach. Mae hynny yn golygu amserlen heriol os am sicrhau a defnyddio cyfraniad grant cyfalaf penodol gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriaf yn benodol at ran 3.2.6 o'r adroddiad, a gallaf gadarnhau bod y Cyngor wedi clustnodi'r swm a nodir (£4.635m) yn y Cynllun Rheoli Asedau. Mae'r tebygrwydd o gynnydd yng nghost y cynllun oherwydd chwyddiant (rhan 3.2.8) yn fater sy'n llesteirio'r cynlluniau ar gyfer sawl ysgol newydd mewn awdurdodau lleol ar draws Cymru gyfan. Diau y bydd hynny angen sylw pellach gan y Cabinet pryd cawn eglurder ar y mater gan y Llywodraeth.

Part 2 of the report explains the need to extend the consultation. This will mean a challenging timetable in order to secure and spend the Welsh

Government's capital grant contribution. Referring specifically to 3.2.6 of the report, I can confirm that the specified sum (£4.635m) has been allocated as part of the Council's Asset Management Plan. The likelihood of an increase in the project cost because of inflation (part 3.2.8) is something which impedes a number of plans for new schools in local authorities across Wales. This will need further consideration by the Cabinet when we have received further clarification on the matter by the Government.

Barn yr aelod lleol / *Views of the Local Member*

Y Cyng. Dilwyn Morgan, Y Bala / *Cllr Dilwyn Morgan, Y Bala*

Diolchodd yr aelod lleol am y cyfle i fynychu'r cyfarfod ac eglurodd ei fod yn hynod falch fod y gwaith wedi ail gychwyn yn nalgylch y Berwyn a bod hynny yn tawelu ofnau'r trigolion. Roedd am nodi tri pheth, bod angen cyfyngu ar nifer y modelau a gyflwynir, bod angen tynnu'r ysgolion gwledig i mewn i'r drafodaeth o'r dechrau un a'i fod yn hynod falch o glywed y newyddion bod y 6ed dosbarth yn cael ei warchod yn y dalgylch. Roedd o'r farn bod cynnal y 6ed dosbarth yn gaffaeliad i'r ardal. Gwnaeth gais yn ogystal i sefydlu'r Panel Dalgylch Lleol cyn gynted â phosibl.

The local member expressed his thanks for the opportunity to attend the meeting and explained that he was very pleased that work had recommenced in y Berwyn catchment area, which had relieved residents' concerns. He wished to note three matters, that the number of proposed models should be limited, that the rural schools needed to be brought into the discussions from the outset and that he was exceptionally pleased to hear the 6th form was to be protected within the catchment area. He was of the opinion that maintaining the 6th form was a great advantage to the area. He also requested that the Local Catchment Area Panel be established as soon as possible.

TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET Y CYNGOR/ COUNCIL CABINET DECISION NOTICE

Dyddiad/Date 20140401

PWNC / SUBJECT

**Eitem 9 Cynllun Dirprwyo i Swyddogion
*Item 9 Delegation Scheme to Officers***

PENDERFYNIAD / DECISION

Mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.
Adoption of the Delegation Scheme to Officers.

Rhesymau dros y penderfyniad / Reason for the decision:-

Mae adolygiad o'r Cyfansoddiad ar y gweill dan arweiniad y Pwyllgor Archwilio gyda'r bwriad o gyflwyno Cyfansoddiad newydd i'r Cyngor ar y 1af o Fai, 2014. Bydd y Cyfansoddiad newydd ar ffurf sydd yn safonol i holl gynghorau Cymru, ond yn parhau i ganiatáu rhai amrywiadau lleol.

Un o'r dogfennau sy'n ffurfio Cyfansoddiad y Cyngor ydi'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion. Hwn ydi'r cynllun sy'n caniatáu i swyddogion weithredu ar ran yr awdurdod lleol. Mae Cynllun Dirprwyo yn ddogfen fyw yn yr ystyr fod swyddogaethau newydd yn dod i ran y Cabinet neu'r Cyngor o bryd i'w gilydd ac maent angen eu hychwanegu at y Cynllun. Mae'n ddogfen felly sydd angen ei hadolygu o bryd i'w gilydd.

Ers cyflwyno'r drefn Cabinet mae'r holl swyddogaethau yn disgyn i un o ddau gategori - swyddogaethau sydd yn gyfrifoldeb i'r Cabinet a swyddogaethau sydd yn gyfrifoldeb i weddill y Cyngor. Mae hyn yn golygu fod rhaid i'r Cynllun Dirprwyo wahaniaethu rhwng y swyddogaethau mae'r Cabinet yn eu dirprwyo i swyddogion a'r swyddogaethau mae'r Cyngor Llawn yn eu dirprwyo i swyddogion.

Ar wahân i newidiadau sy'n angenrheidiol oherwydd newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu'r strwythur, nid oes newidiadau o sylwedd i'r hawliau a ddirprwir i swyddogion heblaw am un peth sef gosod ffioedd.

Yn hanesyddol mae'r drefn o adolygu a gosod ffioedd bob blwyddyn yn gyfrifoldeb i'r aelod Cabinet perthnasol. Mae'r Polisi Ffioedd a Phrisiau yn manylu ar y drefn i'w dilyn a'r ystyriaethau perthnasol i roi sylw iddynt wrth adolygu ffioedd. Yn dilyn adolygiad gan y swyddogion fe gynhyrchir taflen benderfyniad gyda'r ffioedd newydd. Fodd bynnag, dim ond hawl i osod ffioedd ar gyfer materion sy'n gyfrifoldeb i'r Cabinet sydd gan Aelod Cabinet. Mae'r hawliau i osod ffioedd ar faterion sydd oddi allan i gyfrifoldeb y Cabinet naill ai hefo'r pwyllgor perthnasol, e.e. Pwyllgor Trwyddedu, neu hefo'r pennaeth adran. Mae'r drefn yma, lle mae hyd at dri gwahanol gorff yn gyfrifol am osod ffioedd wedi profi'n ddryslyd ac yn glogyrnaidd wrth i adrannau geisio cysondeb i sefydlu ffioedd ar draws eu holl wasanaethau. Mae'r broblem yn fwy amlwg mewn ambell i adran nag arall.

Er mwyn ceisio goresgyn hyn, cynigir yn y cynllun newydd fod yr hawl i osod ffioedd yn cael ei ddirprwyo i'r pennaeth adran i'w weithredu mewn ymgynghoriad gyda'r swyddogion statudol (Pennaeth Cyllid; Prif Weithredwr a Swyddog Monitro), ac mewn ymgynghoriad hefyd hefo'r aelod Cabinet. Effaith y newid yma fyddai caniatáu i bennaeth adran adolygu yr holl ffioedd sydd yn gyfrifoldeb iddo a chyhoeddi taflen ffioedd newydd ar gyfer dechrau'r flwyddyn ariannol bob blwyddyn.

Mae'r crynodeb o gyfrifoldebau sy'n ffurfio cyflwyniad i'r cynllun ar ffurf sy'n safonol i holl gynghorau Cymru, ond oherwydd maint y gwahaniaethau o awdurdod i awdurdod ynghylch dirprwyo i swyddogion mae gweddill y cynllun yn seiliedig ar gynllun presennol y Cyngor.

Ar gyfer yr adolygiad hwn bu ymgynghori gyda phob Pennaeth Adran, Cyfarwyddwyr, Prif Weithredwr a Gweithgor o'r Pwyllgor Archwilio ac mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r sylwadau a gafwyd.

Mae'r Cynllun hefyd yn adlewyrchu y newidiadau strwythurol i'r Cyngor sydd yn digwydd ar y 1^{af} o Ebrill. Bydd angen ei ddiwygio eto ymhen ychydig fisoedd i adlewyrchu'r newidiadau fydd yn digwydd ar y 1^{af} o Fedi o ganlyniad i newidiadau strwythurol pellach.

A review of the Constitution is in progress under the guidance of the Audit Committee with the intention to present a new Constitution to the Council on the 1st May, 2014. The new Constitution will be in a format which is standard to all councils in Wales, but still allows for some local variations.

One of the documents which form the Council's Constitution is the Delegation Scheme for Officers. This is the scheme which allows officers to act on behalf of the local authority. The Delegation Scheme is a live document in the sense that new functions come under the remit of the Cabinet or the Council from time to time and they need to be added to the Scheme. It is therefore a document which needs to be reviewed from time to time.

Since the introduction of Cabinet arrangement all functions fall into one of two categories – functions which are the responsibility of the Cabinet and functions which are the responsibility of the rest of the Council. This means that it is necessary for the Delegation Scheme to differentiate between the functions that the Cabinet delegates to officers and the functions which the Full Council delegates to officers.

Apart from the changes which are necessary as a result of the changes to legislation or structure, there are no changes of substance to the powers delegated to officers save one, namely the setting of fees.

Historically the process of reviewing and the setting of fees every year was the responsibility of the relevant Cabinet member. The Fees and Charges Policy details the procedure to be followed and the relevant considerations to be taken into account in reviewing fees. Following a review by the officers a decision notice is prepared containing the new fees. However, a Cabinet Member has only the right to set fees for matters which are the Cabinet's responsibility. The right to set fees for matters outside the Cabinet's responsibility rests either with the relevant committee e.g. Licensing Committee, or with the head of department. This arrangement, where up to three different bodies are responsible for the allocation of fees has proved to be confusing and cumbersome as departments try to be consistent in establishing fees across all services. The problem is more apparent in some departments than other.

In order to overcome this, the new scheme proposes that the right to set fees is delegated to the head of department in consultation with the statutory officers (Head of Finance, Chief Executive and Monitoring Officer), and in consultation with the Cabinet Member. The effect of this change would be to allow a head of department to review all fees within his responsibility and publish a new pamphlet of fees at the commencement of each financial year.

The summary of responsibilities which forms the introduction to the scheme is in a format which is standard to all councils in Wales, but due to the amount of variation between authorities regarding delegation to officers the remainder of the scheme is based on the Council's present scheme.

For this revision consultations have taken place with all Department Heads, Directors, the Chief Executive and the Audit Committee's Working Group, and the Scheme reflects the observations received.

The Scheme also reflects the structural changes to the Council which take effect on the 1st April. It will be necessary to implement further amendments in a few months to reflect the changes which are taking place on the 1st September as a result of further structural changes.

Sylwadau neu bwyntiau croes / Observations or opposing views:-

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd ac eglurwyd mai'r prif newid fydd yn deillio o'r penderfyniad hwn yw na fydd Aelodau Cabinet bellach yn arwyddo tafenni penderfyniad ar gyfer codi ffioedd.

The Leader presented the report, and it was explained that the main change stemming from this decision is that Cabinet Members will no longer sign decision notices for charging fees.

Barn y swyddogion statudol / The views of the Statutory Officers:-

1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-

Yn amlwg mae angen trefn clir sydd yn hawdd i'w ddeall ar gyfer gosod ffioedd. Credaf bod yr hyn sydd yn cael ei argymhell yn datrys peth o'r cymhlethdodau o'r trefniadau blaenorol ac yn cynnig trefn synhwyrol a thryloyw.

It is obvious that a clear procedure which is easy to understand is necessary for setting fees. I believe that what is being recommended solves some of the complications of the former arrangements and offers a procedure which is transparent and rational.

2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-

*Awdur yr adroddiad
Author of the report*

3. Prif Swyddog Cyllid / Chief Finance Officer:-

Deallaf fod mwyafrif yr addasiadau i'r Cynllun Dirprwyo yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth genedlaethol a strwythurau'r Cyngor ers penderfynwyd ar y fersiwn flaenorol, ac rwy'n cefnogi'r newidiadau gerbron.

Mae'r incwm a dderbynnir trwy osod ffioedd yn hanfodol ar gyfer mantoli cyllideb y Cyngor. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r newidiadau

perthnasol i osod ffioedd, os bydd ymgynghoriad gorfodol gyda'r swyddogion statudol yn parhau. Bydd hynny yn fy ngalluogi i sicrhau fod unrhyw benderfyniad i godi lefel ffioedd, neu beidio, yn gwarchod rheolaeth dros incwm y Cyngor.

I understand that the majority of the amendments to the Delegation Scheme reflect changes to national legislation and the Council's structures since a decision was made on the previous version, and I support the changes submitted.

The income received by setting fees is essential in order to balance the Council's budget. I do not object to the changes relevant to setting fees, if the mandatory consultation with statutory officers continues. That will enable me to ensure that any decision to increase fee levels, or not, protects control over the Council's income.

Barn yr aelod lleol / Views of the Local Member

Dim yn berthnasol
Not relevant.
